

Venous insufficiency ultrasound-vein scan

What is it?

An ultrasound scan of your veins may also be called a duplex or Doppler of your veins. This test uses ultrasound to produce images of the veins in your legs. The veins carry blood from the limbs back to the heart and they have valves to help control flow in the right direction. This test is a safe and effective way to assess if the valves in the veins are working properly or whether they are leaking and causing your varicose veins/ulceration. The ultrasound scan can map out the problem veins enabling the consultant to plan your treatment. The test is painless but can sometimes make patients feel a little faint or dizzy. Please let us know if that is the case.

Why am I having this test?

Your doctor has requested this scan because they suspect you may have leaky valves inside your veins which may be causing your swelling, discoloration, prominent veins or ulceration.

How is the vein ultrasound performed?

There is no preparation needed for the scan. A clinical scientist (who may be male or female) will perform and interpret your ultrasound scan. You will be asked to remove your shoes and trousers/skirt and tissue will be tucked in place to protect your clothing from the ultrasound gel. If possible the scan will be performed with you either standing



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale
University Health Board

or sitting on the edge of the couch with your legs hanging down. Gel is applied to your leg and the scan is carried out from groin to ankle. The scientist will gently squeeze your calf to assess the blood flow within the veins. The test will take approximately 30-60 minutes.



What happens next?

The clinical scientist will comment on the findings and will write a report for the doctor who requested the scan. You will be able to discuss the result of the scan fully with the referring team at your next outpatient appointment. If the scan is performed in clinic, you will see the doctor again following the scan.

Uwchsain methiant gwythiennol – sgan gwythïen

Beth yw hwn?

Gall sgan uwchsain o'ch gwythiennau hefyd gael ei alw'n dwplecs neu'n Doppler o'ch gwythiennau. Mae'r prawf hwn yn defnyddio uwchsain i gynhyrchu delweddau o'r gwythiennau yn eich coesau. Mae'r gwythiennau'n cludo gwaed o aelodau'r corff yn ôl i'r galon ac mae ganddyn nhw falfiau i helpu rheoli'r llif i'r cyfeiriad cywir. Mae'r prawf hwn yn ffordd ddiogel ac effeithiol o asesu a yw'r falfiau yn y gwythiennau'n gweithio'n iawn neu a ydynt yn gollwng ac yn achosi eich gwythiennau chwyddedig/wlseriad. Gall y sgan uwchsain fapio'r gwythiennau trafferthus gan alluogi'r ymgynghorydd i gynllunio'ch triniaeth. Mae'r prawf yn ddi-boen ond weithiau gall wneud i gleifion deimlo ychydig yn benysgafn neu'n wan. Rhowch wybod i ni os yw hynny'n digwydd.

Pam ydw i'n cael y prawf hwn?

Mae eich meddyg wedi gofyn am y sgan hwn oherwydd ei fod yn amau bod gennych falfiau sy'n gollwng y tu mewn i'ch gwythiennau a allai fod yn achosi eich chwyddo, aflwiad, gwythiennau amlwg neu wlserau.

Sut mae uwchsain y wythïen yn cael ei gyflawni?

Nid oes angen paratoi ar gyfer y sgan. Bydd gwyddonydd clinigol (a all fod yn wryw neu'n fenyw) yn perfformio ac yn dehongli eich sgan uwchsain. Bydd gofyn i chi dynnu'ch



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale
University Health Board

esgidiau a'ch trowsus/sgert a bydd hancesi papur yn cael eu defnyddio i amddiffyn eich dillad rhag y jel uwchsain. Os yn bosibl, bydd y sgan yn cael ei berfformio gyda chi naill ai'n sefyll neu'n eistedd ar ymyl y sofffa gyda'ch coesau'n hongian i lawr. Rhoddir jel ar eich coes a chynhelir y sgan o'r forddwyd i'r ffêr. Bydd y gwyddonydd yn gwasgu rhan isaf eich coes yn ysgafn i asesu llif y gwaed o fewn y gwythiennau. Bydd y prawf yn cymryd tua 30-60 munud.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y gwyddonydd clinigol yn esbonio'r canfyddiadau ac yn ysgrifennu adroddiad ar gyfer y meddyg a ofynnodd am y sgan. Byddwch yn gallu trafod canlyniad y sgan yn llawn gyda'r tîm atgyfeirio yn eich apwyntiad claf allanol nesaf. Os cynhelir y sgan yn y clinig, fe welwch y meddyg eto ar ôl y sgan.